



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Cyfreithlondeb

Trosolwg – Pa mor gyfreithlon mae'r llu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Aseswyd Heddlu Dyfed-Powys fel llu sydd angen gwella o ran cyfreithlondeb y modd mae'n cadw pobl yn ddiogel ac yn lleihau troseddu ag ef. Mae ein canfyddiadau eleni yn gyson â chanfyddiadau llynedd, lle gwnaethom ddyfarnu bod y llu angen gwella o ran cyfreithlondeb.

Mae'r llu'n deall pwysigrwydd trin pobl â thegwch a pharch, ond mae angen iddo wella'r ffordd mae'n ceisio adborth ac yn deall y materion sy'n effeithio ar ganfyddiadau cyhoeddus o driniaeth gan yr heddlu. Mae angen i'r llu wella'r graddau mae'n sicrhau bod ei weithlu'n ymddwyn yn foesegol a chyfreithlon, yn arbennig mewn cysylltiad â gwirio, deall bygythion ynghylch llygredigaeth a mynd i'r afael â chamddefnyddio awdurdod er mantais rywiol. Mae'r llu'n ceisio adborth gan ei weithlu ac yn gwerthfawrogi'r buddion sy'n gysylltiedig â lles y gweithlu, ond mae angen iddo wella ei ddealltwriaeth o anghenion lles y gweithlu a'r ffordd mae'n rheoli perfformiad unigol.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn deall pwysigrwydd trin pobl â thegwch a pharch. Seilir gwerthoedd y llu ar y Cod Moeseg, ac mae tegwch a pharch yn hanfodol i weledigaeth a gwerthoedd y llu ei hunan. Mae'r llu'n ceisio adborth a her gan y bobl mae'n eu gwasanaethu, ond mae angen i'r ffocws symud yn fwy tuag at ddeall y problemau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ganfyddiadau cyhoeddus o degwch a pharch na sy'n wir ar hyn o bryd.

Mae'r llu'n gwirio ymgeiswyr er mwyn sicrhau ei fod yn recriwtio swyddogion, staff a gwirfoddolwyr â safonau uchel o ymddygiad moesegol ac yn cadarnhau ac atgyfnerthu'n rheolaidd yr hyn yr ystyrir ei fod yn ymddygiad derbyniol ac annerbyniol. Mae ganddo ddealltwriaeth o fygythion i uniondeb y sefydliad ac yn ymgymryd â rhywfaint o waith asesu o lygredigaeth bosibl. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid oes ganddo ddealltwriaeth lawn o faint mae llygredigaeth yn cael effaith ar y sefydliad, neu i ba raddau gallai swyddogion fod yn camddefnyddio eu hawdurdod er mantais rywiol. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cyfathrebu â'r cyhoedd a'i weithlu ynghylch canlyniadau achosion o gamymddwyn a llygredigaeth.

Mae'r llu'n cynnig moddau amrywiol i swyddogion a staff allu mynegi barnau ynghylch triniaeth deg a pharchus ond nid yw'n deall y meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf ar ganfyddiadau'r gweithlu. Mae'r llu'n nodi bod angen iddo fod yn fwy

rhagweithiol erbyn hyn o ran cynnwys y gweithlu mewn gweithgarwch dyddiol a gynllunir i annog triniaeth deg a pharchus. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn deall ac yn gwerthfawrogi'r buddion sy'n gysylltiedig â lles y gweithlu ac mae ganddo nifer o ddulliau i allu nodi anghenion a phryderon ei weithlu, gan gynnwys cymryd camau gweithredu cynnar ac ataliol i wella lles y gweithlu. Nid oes gan Heddlu Dyfed-Powys broses sefydledig, deg neu effeithiol i asesu perfformiad ar gyfer swyddogion a staff.